# Y COFIADUR

*Rhif 76* *Gaeaf 2025/26*

UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y COFIADUR

## Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru

*Rhif 76* *Gaeaf 2025/26*

Argraffwyd dros y Gymdeithas gan Wasg Serol, Castell-nedd

# Cynnwys

Swyddogion Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru ......................... 3

Rhagair ........................................................................................ 5

Drannoeth y Drin – ar ôl y Rhyfel Mawr ............................................ 7

Un o'r Cewri: William Pritchard 1703–73 ............................................ 13

Eglwys Maesyneuadd, Trefor ................................................................ 20

Wylo, Neidio a Gorfoleddu: Nodweddion addoliad ymneilltuol
yng Nghymru ar ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ..................... 26

Hugh Jones, Maesglasau 1749–1825 ...................................................... 37

## Swyddogion Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru

*Llywydd*: Miss Joan M. Thomas, Caerfyrddin

*Ysgrifennydd:* Parchg Ddr Geraint Tudur, Bangor

*Trysorydd*: Mr Dafydd Roberts, Trefor

*Swyddog Hyrwyddo*: Mr Rhodri Darcy, Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ.

Golygyddion *Y Cofiadur*: Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru

© 2025 y cyfranwyr

# Rhagair

Mae'n fraint ysgrifennu pwt o ragair unwaith eto i gyflwyno'r gyfrol hon o'r *Cofiadur*. Eleni mae gennym bum erthygl amrywiol, tair ohonynt yn adlewyrchu gweithgarwch y Gymdeithas Hanes a dwy wedi'u hysgrifennu'n arbennig ar gyfer y rhifyn hwn.

Traddodwyd darlith Dr Aled Eurig yn ystod Cyfarfodydd Blynyddol 2025 yr Undeb yn Nant Gwrtheyrn. Mae cyflwyno darlithoedd yn ymwneud â'n hanes yn draddodiad yng nghyfarfodydd blynyddol yr Undeb ac rydym yn falch fod *Y Cofiadur* yn medru rhoi'r rhain ar gof a chadw ar gyfer cynulleidfa ehangach.

I'r un perwyl mae cynllun newydd y Gymdeithas Hanes yn gyfle arall i ledaenu gwybodaeth am ein hanes. Bydd 'Hon yw fy Stori' yn gyfres o bodlediadau ar YouTube a gwefan yr Undeb lle bydd unigolyn yn adrodd hanesyn nad oes llawer o bobl yn gwybod amdano.  Y podlediad cyntaf i ymddangos ar YouTube oedd cynnwys erthygl y Parchg Ddr Geraint Tudur yn adrodd hanes William Prichard, fu'n gyfrifol am sefydlu'r eglwys Annibynnol gyntaf ar yr ynys, a adnabyddir bellach yn Ebeneser, Rhosmeirch. Dafydd Roberts sy'n gyfrifol am yr ail bodlediad sy'n adrodd hanes hynod ddiddorol eglwys Maesyneuadd, Trefor o'i dyddiau cynnar hyd y presennol.

Rydym hefyd yn falch iawn bod y Parchg Ddr Alun Tudur a'r Parchg Iwan Llewelyn Jones wedi cytuno i lunio dwy erthygl i ni yn arbennig ar gyfer *Y Cofiadur*. Dwy erthygl arall sydd unwaith eto'n taflu goleuni ar agweddau o'n hanes sydd efallai ddim mor gyfarwydd ac sy'n rhoi darlun byw o'r bobl fu'n rhan o'r achos yn y cyfnod cynnar.

Diolch i'r holl gyfranwyr am eu herthyglau ac i Rhodri Darcy a Margaret Hughes o Dŷ John Penri am lywio'r rhifyn hwn o'r cylchgrawn drwy'r wasg. Gobeithio y cewch chi fwynhad wrth bori yn yr hanesion a gynhwysir yma.

Joan Thomas, Caerfyrddin
Rhagfyr 2025

*Darlith y Gymdeithas Hanes a roddwyd yng nghyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr, Nant Gwrtheyrn, 26 Mehefin 2025*

# Drannoeth y Drin – ar ôl y Rhyfel Mawr

Dr Aled Eirug

Methodd traddodiad heddwch Henry Richard, yr 'Apostol Heddwch' o Dregaron, a Keir Hardie, yr heddychwr amlwg ac aelod seneddol Merthyr Tydfil, i roi pall ar frwdfrydedd 280,000 o ddynion ifanc o Gymru i ymladd yn y Rhyfel Mawr. Cyfyngwyd y gwrthwynebiad i'r rhyfel i leiafrif gweithgar oedd yn heddychwyr Cristnogol neu ymhlith sosialwyr y Blaid Lafur Annibynnol. Serch hynny, roedd pris y rhyfel mewn bywydau, gyda'r 35 mil a laddwyd, a'r degau o filoedd o glwyfedigion, wedi taro ymron pob tref a phentref. Dioddefodd miloedd o effeithiau eu clwyfau corfforol a seicolegol yn y cyfnod a olynodd y rhyfel. Ymdreiddiodd ymdeimlad o golled trwy'r gymdeithas gyfan.

Ond crëwyd awydd dwfn i ofalu na ddylai rhyfel fyth ddigwydd eto. Arweiniodd cytundeb hynod ddiffygiol Versailles, a geisiodd roi terfyn ffurfiol ar y rhyfel yn Ewrop, at greu Cynghrair y Cenhedloedd, a sefydlwyd ym 1920. Cafodd Urdd Cynghrair y Cenhedloedd yng Nghymru ei sefydlu i gefnogi'r corff newydd, gyda nawdd sylweddol gan David Davies, Llandinam. Bu croeso brwd i'r Gynghrair gan lawer o fenywod a fanteisiodd ar y cyfle cyntaf ers y rhyfel i ymgyrchu dros heddwch. Er nad oeddent yn heddychwyr absoliwt ymrwymodd aelodau'r Gynghrair yng Nghymru i ddelfryd Henry Richard o 'heddwch byd-eang' yn seiliedig ar 'gydweithrediad rhyngwladol'.

Ar ôl Tachwedd 1918, er i bawb orfoleddu pan ddaeth y rhyfel i ben, buan iawn y troes gobeithion y cyhoedd yn ddigalondid. Wedi'r cadoediad, bu Cymru mewn cyfnod mawr o fyfyrio a dadrithiad, yn ymylu ar sinicaeth a hyd yn oed anobaith ar brydiau. Gorweddai cysgod y rhyfel yn drwm – bu'r

colledion yn drwm ac effeithiodd ar bron pob cymuned. Roedd graddfa enfawr y marwolaethau, effaith ddofn y profedigaethau, a'r gwaddol seicolegol ymysg y milwyr a oroesodd ynghyd â'u teuluoedd, wedi eu serio'n annileadwy ar feddyliau pawb. Yr ymateb cyhoeddus i'r drychineb oedd i goffáu'r meirwon mewn cofebau cyhoeddus lleol – dull gweladwy a gynrychiolai eu galar, ac a adlewyrchai'r awydd i goffau'r meirwon yn ddi-oed ac yn barhaol.

Nid galar a gofid oedd yr unig ymatebion i derfysgoedd y rhyfel, ac mi gododd cwestiynau ym Mhrydain a ledled Ewrop ynghylch gwreiddiau anghydraddoldeb gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol, ac ynghylch pwy ddylai fod â'r grym i wneud penderfyniadau am y materion oedd yn effeithio ar fywydau pobl gyffredin. Roedd hwn yn gyfnod o ansicrwydd ac o newid dybryd.

Ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, ymboenai llywodraeth Prydain am ryfel annibyniaeth yr Iwerddon, ond ar hyd a lled Ewrop, cafwyd dim llai na 27 achos o drosglwyddo grym gwleidyddol trwy drais rhwng 1917 a 1920, gyda rhyfel cartref yn dod yn sgil llawer o'r digwyddiadau hyn, a rhyfela diddiwedd yn digwydd yng ngwledydd Pwyl, Rwsia, Bwlgaria, Rwmania, gwlad Groeg a Thwrci. Amcangyfrifir bod pedair miliwn o bobl wedi marw yn Ewrop yn y cyfnod hwn, naill ai mewn rhyfeloedd, o ganlyniad i orfod ffoi, dadleoli neu newynu – mwy na'r cyfanswm o bobl a gollwyd gan Brydain, Ffrainc a'r Unol Daleithiau trwy gydol y Rhyfel Mawr.

Ym Mhrydain, dilynwyd y Cadoediad ym mis Tachwedd 1918, gan yr etholiad 'khaki' sydyn ym mis Rhagfyr a gynhaliwyd cyn i'r milwyr hyd yn oed gael eu dadfyddino, ond ni pharhaodd y gwylltineb gwladgarol cychwynnol a adlewyrchwyd ym muddugoliaeth Lloyd George. Dros y tair blynedd nesa, methodd addewid y Llywodraeth 'o wneud Prydain yn wlad addas i arwyr gael byw ynddi' â thawelu poblogaeth oedd wedi llwyr ymlâdd ar ôl pedair blynedd o ryfel. Roedd anfodlonrwydd cymdeithasol ac economaidd yn rhemp. Wedi streic yr heddlu yn haf 1918, honnodd y Prif Weinidog, Lloyd George, fod 'Prydain yn agosach at Folsieficiaeth y diwrnod hwnnw nag ar unrhyw adeg ers hynny.' Ym 1919, cafwyd haf cythryblus llawn streiciau – athrawon yn y Rhondda, yr heddlu eto, streic

reilffordd ledled Prydain, a streic gan y glowyr yn erbyn penderfyniad y llywodraeth i beidio gwladoli'r diwydiant.

Dechreuodd yr agwedd at heddychiaeth newid hefyd yn yr un cyfnod. Roedd Cymru'n edrych yn wlad wahanol iawn ar ôl y rhyfel – roedd hen hierarchaeth yr Eglwys sefydledig a'r bonedd wedi colli llawer o'u stadau. Gwelwyd dadrithiad cynyddol â'r amodau cymdeithasol ac economaidd a ddioddefodd y milwyr wedi iddynt ddychwelyd o'r rhyfel. Mewn awyrgylch o'r fath, po fwyaf y pellhaodd y rhyfel, mwyaf o anrhydedd a roddwyd i'r sawl a'i gwrthwynebodd. Ym 1921, Morgan Jones, yn isetholiad Caerffili, oedd y gwrthwynebydd cydwybodol cyntaf i gael ei ethol fel aelod seneddol wedi'r rhyfel.

Y blaid Lafur yng Nghymru a fanteisiodd fwyaf ar yr ymdeimlad cynyddol o anfodlonrwydd – cynyddodd presenoldeb aelodau seneddol o Gymru o ddeg ym 1918 i ddeunaw ym 1922, yn cynnwys pump fu'n ymgyrchu yn erbyn rhyfel – Ramsay MacDonald (Aberafan), David Williams (Dwyrain Abertawe), Morgan Jones (Caerffili), Dr J. H. Williams (Llanelli), R. C. Wallhead (Merthyr). Roedd ethol George M. Ll. Davies fel aelod seneddol dros Brifysgol Cymru yn Etholiad Cyffredinol 1923 yn adlewyrchiad o'r ymdeimlad newydd oedd ar gerdded wedi'r rhyfel. Safodd fel Heddychwr Cristnogol annibynnol – ac er mai ond o ddeg pleidlais yr enillodd, 'tybiwyd fod delfrydau rhyfel a militariaeth yn perthyn i'r gorffennol.'

## Cynghrair y Cenhedloedd a'i chefnogwyr

Sefydlwyd Cynghrair y Cenhedloedd ym 1920 fel rhan o Gytundeb Versailles, a dyma'r sefydliad rhyngwladol cyntaf ar raddfa fawr mewn hanes â'r bwriad o fod yn 'ysbrydoliaeth i'r miliynau oedd wedi syrffedu ar ryfel ac a oedd yn gobeithio ac yn gweddïo am heddwch parhaol.' Yr hyn yr oedd mewn gwirionedd oedd cymdeithas o wladwriaethau sofran a gynlluniwyd yn bennaf i gynnal heddwch a diogelwch rhyngwladol trwy dderbyn yn wirfoddol rai rhwymedigaethau ar ei haelodau. Fodd bynnag, ei gwendid sylfaenol oedd y ffaith fod gwladwriaethau allweddol yn gwrthod cymryd rhan. Yn yr Unol Daleithiau, gwrthododd y Senedd

gadarnhau Cyfamod y Gynghrair; roedd hi'n 1926 cyn i'r Almaen ymuno, ac ni wnaeth Rwsia gais am aelodaeth tan 1934.

Ond ym Mhrydain roedd ei neges o heddwch trwy gydwladoliaeth yn fwy llwyddiannus o lawer i ddenu diddordeb ac ymrwymiad arweinyddion cymdeithas a dinasyddion cyffredin fel ei gilydd. Y prif gyfrwng i ennyn cefnogaeth cymdeithas i'r Gynghrair oedd Undeb Cynghrair y Cenhedloedd, a grëwyd ym mis Hydref 1918, 'i sicrhau derbyn yn gyfan gwbl y Gynghrair fel gwarcheidwad hawliau rhyngwladol, organ cydweithredu rhyngwladol, canolwr terfynol gwahaniaethau rhyngwladol a'r offeryn yn anad un i gael gwared ar anghyfiawnderau a all fygwth y byd.' Erbyn diwedd 1919, roedd ganddi ddeg mil o aelodau ac o fewn pum mlynedd cynyddodd hyn i hanner miliwn.

Yng Nghymru, ar Sulgwyn 1920, sefydlwyd cyngor cenedlaethol Cymreig Cyngor y Cenhedloedd, a'r prif symbylydd oedd David Davies Llandinam, aelod seneddol Rhyddfrydol Maldwyn. Bu'n ymladd yn y rhyfel ac roedd yn ysgrifennydd preifat i Lloyd George cyn ymddiswyddo. Ynghyd â'i ddwy chwaer, Gwendoline a Margaret, etifeddodd ffortiwn ei dad-cu a oedd wedi'i hennill yn y diwydiannau rheilffyrdd a glo. Roedd y ddwy chwaer yn gasglwyr brwd o weithiau celf gan artistiaid megis Monet, Renoir, Van Gogh, Cezanne a Pissarro, a gwirfoddolodd y ddwy i weithio mewn ysbytai maes yn Ffrainc yn ystod y rhyfel. Uchelgais David Davies oedd dylanwadu ar y drafodaeth gyhoeddus yng Nghymru, a gwnaeth hynny drwy gyllido'r cylchgrawn *The Welsh Outlook*, ac ym 1918, yn Eisteddfod Genedlaethol, Castell-nedd, datganodd o blaid creu Undeb Cymreig Cynghrair y Cenhedloedd. Ym 1920 cyflwynodd rodd o £30,000 a chreu cronfa waddol er mwyn sefydlu'r Undeb, ac erbyn 1922 roedd 280 o ganghennau lleol wedi'u sefydlu. Mudiad 'heddychiaethol' ydoedd yn cefnogi polisi heddychlon yn seiliedig ar ddiogelwch rhyngwladol, yn hytrach na mudiad o 'heddychwyr' a fyddai'n gwrthwynebu pob rhyfel ar egwyddor.

Pwysleisiai Davies yr angen am ddiarfogi rhyngwladol dan reolaeth llu heddlu rhyngwladol, gan gynnwys grym yn yr awyr. Cyfarwyddwr cyntaf yr Undeb oedd y Parchg Gwilym Davies, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn Llandrindod a oedd wedi gweithredu fel ysgrifennydd dylanwadol y

Gyfysgol Gwasanaeth Cymdeithasol, a sefydlwyd ym 1911 fel mudiad wedi'i ymrwymo i drafod problemau cymdeithasol 'gyda dealltwriaeth a phwrpas pendant Cristnogol' ac fel 'system glirio ar gyfer syniadau sydd yn effeithio ar asiantaethau cymdeithasol yng Nghymru.'

Fe'i sefydlwyd gan ddeallusion ac ymgyrchwyr Rhyddfrydol, i wneud yr eglwysi yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldeb tuag at gymdeithas. Ymysg ei haelodau roedd y Prifathro Thomas Rees, Bala-Bangor, yr ymgyrchydd Llafur o Aberdâr, Rose Davies, Gwendoline a Margaret Davies, Gregynog, Mary Ellis o Ddolgellau (yr ail fenyw yn unig i ddod yn arolygydd ysgolion yn Adran Addysg Cymru), a Winifred Coomb Tennant, y bu ei chyfoeth a'i safle cymdeithasol yn fodd i hwyluso a hyrwyddo ei ffeministiaeth radical, ei heddychiaeth a'i chenedlaetholdeb. Yn ystod y rhyfel, bu Coomb Tennant yn cadeirio'r Comisiwn Pensiynau Rhyfel lleol ac yn ymgyrchydd brwd dros y bleidlais i fenywod. Ym 1920 hi oedd y fenyw gyntaf i fod yn ynad heddwch ym Morgannwg, a daeth hefyd yn aelod o bwyllgor gwaith Prydeinig y Rhyddfrydwyr. Ym 1922, enwebwyd hi i fod yn un o gynrychiolwyr Prydain yng Nghynghrair y Cenhedloedd a hi oedd y fenyw gyntaf o Brydain i fod yn gynrychiolydd yno.

Denodd Undeb y Gynghrair gefnogaeth gynnar pob plaid wleidyddol yng Nghymru, ac eithrio'r Blaid Gomiwnyddol (hyd nes i Rwsia gytuno ymuno yn 1934). Roedd yr arweinwyr crefyddol oll yn gydlofnodwyr ei hapêl ariannol i hyrwyddo ei gwaith arloesol, ynghyd â ffigyrau gwleidyddol a diwylliannol amlwg hefyd. Ffurfiodd nifer o addysgwyr bwyllgor addysg ymgynghorol i gynorthwyo athrawon i annog disgyblion i ddatblygu 'meddyliau diragfarn tuag at broblemau' rhyngwladol. Sefydlwyd canghennau mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion, ac roedd gan Undeb Cymreig Cynghrair y Cenhedloedd o leiaf 20,000 o aelodau mewn 400 cangen erbyn 1923.

Ond cynllun mwyaf uchelgeisiol Undeb Cymreig Cynghrair y Cenhedloedd oedd creu'r Ddeiseb Heddwch gan fenywod Cymru i fenywod yr Unol Daleithiau. Sbardunwyd yr apêl at fenywod yr Unol Daleithiau i gefnogi'r wlad i ddod yn aelod o'r Gynghrair, wedi i'w Senedd yn Washington wrthod Cytundeb Versailles ym Mawrth 1920, ac wedi i'r

Arlywydd Gweriniaethol Warren Harding wrthod dilyn arweiniad ei ragflaenydd Woodrow Wilson i eirioli dros gael yr Unol Daleithiau i ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd.

Ym mis Mai 1923, testun trafod cynhadledd Undeb Cynghrair y Cenhedloedd yn Aberystwyth oedd 'Menywod Cymru a Heddwch y Byd'. Yn deillio o hyn, cytunwyd i greu deiseb heddwch gan benodi dwy yn drefnyddion cenedlaethol. Yr unigolion allweddol wrth ddechrau'r ddeiseb oedd Elined Prys, Mary Ellis ac Annie Hughes Griffiths. Ym 1923, daeth Hughes Griffiths yn gadeirydd Undeb Cymreig Cynghrair y Cenhedloedd ac yn llywydd pwyllgor y menywod. Ym mis Mai, dechreuodd yr apêl dros Ddeiseb a Chofeb Heddwch Menywod Cymru, ac ym mis Mawrth 1924, arweiniodd 'ddirprwyaeth heddwch' hanesyddol menywod Cymru i America. Casglwyd 390,296 o enwau menywod Cymru – bron i hanner holl fenywod Cymru – mewn ymdrech ryfeddol o lwyddiannus.

Mary Ellis fu'n gyfrifol am drefnu'r amserlen yn America, a'r trydydd cymeriad allweddol oedd Elined Prys o Dalgarth. Hi oedd pennaeth gwaith cynorthwyol Mudiad Cristnogol Myfyrwyr y Byd gyda ffoaduriaid, ac yn ddiweddarach byddai'n priodi Walter Kotschnig, a ddaeth yn Gyfarwyddwr Uchel Gomisiwn dros Ffoaduriaid yn y Gynghrair, ac wedyn yn Ddirprwy Ysgrifennydd Cynorthwyol yr Unol Daleithiau. Trefnwyd yr ymgyrch trwy bwyllgorau sirol, a lledwyd y neges heddwch ymhell tu hwnt i'r lleiafrif o heddychwyr a wrthwynebodd y Rhyfel Byd Cyntaf. Fel y dywed yr hanesydd, yr Athro K. O. Morgan, 'fforwm i anghydffurfwyr Rhyddfrydol a ddadrithiwyd neu a ddadleolwyd ac eraill oedd yn awyddus i chwarae eu rhan adeiladol hwy i harneisio grym y farn foesol i gyfeiriad heddwch byd, i orfodi cyfraith ryngwladol a chyd-ddiogelwch heb gefnogi heddychiaeth.'

Denodd y mudiad torfol bywiog hwn aelodau newydd o bob cwr o Gymru i ymgyrchu dros heddwch, ac apeliodd at garfan niferus o ymgyrchwyr, menywod yn bennaf, a oedd yn gymaint mwy nag ymdrechion gwrthwynebwyr y Rhyfel Mawr.

# Un o'r Cewri
# William Pritchard 1703–73

Parchg Ddr Geraint Tudur

Cyfrol oedd yn sicr yn haeddu cylch ehangach o ddarllenwyr nag a gafodd oedd honno a gyhoeddwyd yn breifat gan y Parchg Ddr Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern, yn ôl ym 1992: *William Prichard, Cnwchdernog*.[1] Nid yn unig yr oedd yn cynnwys ffrwyth ymchwil trylwyr a manwl, yr oedd hefyd yn gofnod parhaol o un o gewri'r traddodiad Annibynnol yn siroedd Caernarfon a Môn. Gwae ni os anghofiwn yr aberth a wnaed gan y rhai a aeth o'n blaenau, a bodloni yn ein hanwybodaeth ynglŷn â phris cymaint o'r pethau yr ydym ni a'n cydoeswyr yn eu cymryd mor ganiataol. Ein cadw rhag gwneud hynny yw'r bwriad yma.

Wrth reswm, dim ond cynnig crynodeb o hanes, a chipolwg ar ddewrder William Prichard y mae'r erthygl hon, a hynny am y rheswm fod gwirionedd yn yr hen ddywediad sy'n honni mai da yw cael 'tamaid i aros pryd.' Fel rhan o brosiect diweddaraf Cymdeithas Hanes Undeb yr Annibynwyr, gwnaed clip fideo ar gyfer sianel Teledu Annibynwyr Cymru ar YouTube (https://youtu.be/iU2DY1splx0),[2] a hynny gyda'r un bwriad, sef creu awydd am wybod mwy am ein hanes, a mwy am rai o arwyr y gorffennol, yn wŷr a gwragedd, yn enwog a di-nod. Ac mae cymaint ohonynt! Dyma ymdrech, felly, i ddod â'u straeon i'r amlwg, a hynny, yng nghyd-destun hanes William Prichard, yn y gobaith y bydd rhai, er mwyn dysgu mwy, yn dod o hyd i gyfrol Dafydd Wyn Wiliam ac yn ei darllen.

Ym mhlwyf Llanarmon, ardal Chwilog yn Sir Gaernarfon, y mae'r stori'n dechrau, oherwydd yno y mae fferm Bryn-rhydd, tua hanner milltir o'r eglwys. Richard Morris a'i wraig, Margaret (*née* Prichard) oedd y tenantiaid ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif ac iddynt hwy y ganwyd mab yn 1703.[3] William oedd hwnnw.

Am gyfnod, yn ŵr ifanc, bu'n dysgu crefft y ffermwr gyda'i dad tra bu ar yr un pryd yn cael addysg dda, ond tua'r flwyddyn 1727, ac yntau heb gyrraedd ei ddeg ar hugain oed eto, rhoddwyd iddo denantiaeth Glasfryn Fawr ym mhlwyf Llangybi. Tua'r un adeg, priodwyd ef â Mary Hughes o'r Caerau, plwyf Clynnog, a ganwyd iddynt un mab a thair o ferched. Yn drist iawn, bu farw Mary ym 1736 ar adeg genedigaeth ei thrydedd merch, ond cyn hir, ailbriododd William â Jane Vaughan, Moelfre, plwyf Llanaelhaearn, a bu hi'n gefn i'w gŵr trwy holl helyntion ac anturiaethau'r blynyddoedd oedd i ddod.

Un garw oedd William, yn ôl pob tebyg, ond eglwyswr ffyddlon. Un diwrnod ym 1739, ac yntau wedi bod i oedfa yn eglwys y plwyf, galwodd yn y dafarn oedd gyferbyn â phorth yr eglwys cyn troi am adref. Bu yno ychydig yn hwy nag yr oedd wedi ei fwriadu, ac erbyn iddo gychwyn cerdded am Glasfryn, yr oedd wedi tywyllu. Collodd ei ffordd, ond gwelai olau trwy'r tywyllwch, ac anelu amdano.

Cafodd ei hun y tu allan i ffenestr cymydog iddo, sef Francis Evans, Caertyddyn, Pencaenewydd. Ymneilltuwr ac Annibynnwr oedd Francis, ac aelod o eglwys Annibynnol Penlan, Pwllheli. Yr oedd y foment honno yn cynnal ei ddefosiwn cyn machludo, heb wybod, wrth gwrs, fod rhywun y tu allan i'w ffenestr yn gwrando arno. Gweddïodd gyda thaerineb gerbron gorsedd gras dros ei 'gymdogion annuwiol', a sylweddolodd William Prichard, ei wrandäwr cudd, ei fod ef yn un o'r rheini.

Cafodd William dröedigaeth y noson honno, a thrwy Francis Evans, fe dybiwn, daeth i gysylltiad ag eglwys Penlan a'i gweinidog, John Thomas.[4] Un duwiol oedd hwnnw yn ôl dyddiadur y diwygiwr Methodistaidd, Howell Harris; yr oedd yn 'llawn o gariad at Dduw.' Aeth yn ei flaen i nodi fod 'tri neu bedwar man y mae'n pregethu ynddynt, a rhywfaint o arwyddion o symud yn ddiweddar ymhlith yr esgyrn sychion.'[5]

Trwy eglwys Penlan, ehangwyd cylch cysylltiadau William Prichard. Deuai Lewis Rees,[6] gweinidog Llanbrynmair, yno i bregethu o dro i dro gan ddwyn gydag ef newyddion am unrhyw ddatblygiadau oedd yn digwydd ar y pryd. Trwyddo ef y daethpwyd i wybod am Jenkin Morgan,[7] un o athrawon ysgolion cylchynol Griffith Jones, Llanddowror,[8] ac yr oedd

Morgan, yn ôl Rees, yr adeg honno yn cadw ysgol yn Nantydeiliau, Llanuwchllyn.

Gresynai William Prichard a'i gyfeillion Ymneilltuol nad oedd ysgol o'r fath yn Llangybi, ac felly, yn 1740, trefnwyd fod Francis Evans yn mynd i Lanuwchllyn i berswadio Jenkin Morgan i ddod i Langybi tra bod William Prichard yn mynd at y Parchg Edward Nanney, curad y plwyf, i ofyn caniatâd i sefydlu'r ysgol newydd yn yr eglwys, trefniant nid anghyffredin gydag ysgolion Griffith Jones. Ateb Edward Nanney, fodd bynnag, oedd, 'Na!' Penderfynwyd, felly, dod â'r ysgol i Glasfryn Fawr, ac o ganlyniad i'r trefniant hwnnw bu William Prichard a Jenkin Morgan yn ffrindiau mynwesol am yr ugain mlynedd nesaf.

Un o'r rhai oedd o fewn cylch cydnabod Jenkin Morgan oedd neb llai na Howell Harris, a phan ddeallodd Morgan ei fod yn bwriadu ymweld â Llŷn ym mis Ionawr 1741, trefnodd fynd i'r Bala i'w gyfarfod a'i hebrwng i Glasfryn Fawr. Nododd Harris yn ei ddyddiadur ei fod yn deall fod tua thri dwsin o Ymneilltuwyr yn Llŷn, ac yr oedd yn awyddus i ymweld â rhai ohonynt. Un diwrnod, a William Prichard wedi dychwelyd i Glasfryn o Rhydolion ym mhen draw'r penrhyn, cafodd fod Edward Nanney a rhai cyfeillion yno'n disgwyl amdano. Gwaetha'r modd, yr oedd Nanney wedi meddwi.

Gan fod trefniant eisoes wedi ei wneud fod oedfa fechan i'w chynnal ar yr aelwyd ar ddiwedd y dydd, a Harris i'w harwain, aeth Prichard ati i gynnal y defosiwn. Ceisiodd Edward Nanney ei atal trwy roi ei law dros ei geg, ac yng ngwres y foment, rhoddodd William Prichard ergyd i'r curad.

Gwyddai Harris y byddai hyn yn fêl ar fysedd gwrthwynebwyr Methodistiaeth, Ymneilltuaeth a'r diwygiad, ac yn ddefnyddiol wrth iddynt geisio cyfiawnhau unrhyw erlid. Oherwydd hynny, ac mewn ofn a braw wrth iddo ystyried beth allai ddigwydd, gadawodd Glasfryn Fawr ar frys dan fantell y nos, a mynd ar ei union am Benmorfa i ddal cwch fyddai'n ei gludo drosodd i ddiogelwch Meirionnydd ac i gychwyn ei daith am adref.

Am William Prichard, daeth Nanney â chyhuddiad yn ei erbyn, ac yn Llys Sesiwn Chwarter Caernarfon yn Ebrill 1741, gorchmynnwyd iddo gadw'r heddwch. O bosibl fod rhai uchelwyr oedd â chydymdeimlad ag ef

wedi sibrwd yng nghlust y barnwr, ond er y posibilrwydd hwnnw, cwta bedwar mis yn ddiweddarach, bu'n rhaid i William a'i deulu adael Glasfryn Fawr a symud i gartref newydd.

Yn Sir Fôn yr oedd hwnnw, ac ym mhlas Penmynydd o bobman. Yr oedd yn ddechrau newydd iddo, ond er y trafferthion yr oedd wedi eu cael yn Sir Gaernarfon, nid oedd ffrwyno ar ei frwdfrydedd Cristnogol, a dechreuodd ymgyfeillachu unwaith eto ag Ymneilltuwyr. Bach oedd eu rhif, dau neu dri theulu, o bosibl, ond gweledigaeth genhadol William Prichard oedd bod yr Efengyl yn cael ei phregethu a phobl newydd yn dod, dan ddylanwad yr Ysbryd Glân, i chwyddo eu rhengoedd. Rhaid felly oedd cael pregethwyr grymus i ddod atynt i bregethu, ac un o'r rhai a ddaeth yn haf 1743 oedd Lewis Rees, Llanbrynmair, i gynnal oedfa ym Melin Engan, Llansadwrn.

Pan ddaeth, ymddangosodd gwrthwynebwyr i aflonyddu ar yr addoliad, yn argyhoeddedig, mae'n siŵr, eu bod yn gwneud da trwy amddiffyn yr Eglwys Sefydledig. A dyna oedd y stori gyda chymaint o gynulliadau'r Ymneilltuwyr, ym Melin Engan, ym Minffordd, Penmynydd pan oedd Jenkin Morgan yn pregethu yno, ac mewn mannau eraill hefyd; byddai'r gwrthwynebwyr yn siŵr o ddod i aflonyddu arnynt, gydag amryw o'u hymosodiadau yn rhai ciaidd a chas. Yn wir, yn Chwefror 1744, ymgynullodd tyrfa o tua dau gant o bobl i ymosod ar gartref William Prichard ym mhlas Penmynydd. Nid oedd ef, ei deulu na'i weision adref ar y pryd, ond diau mai golygfa ddigon digalon a welsant wedi iddynt ddychwelyd, y cyfan wedi ei chwalu a'i falurio gan fintai afreolus a dialgar.

O ganlyniad i hynny, rhaid oedd gadael Penmynydd a symud eto, i Bodlew, Llanddaniel-fab. Ond yr un oedd y stori yno. Gan fod William Prichard yn mynnu glynu at ei ddaliadau, a bod yn weithgar fel Ymneilltuwr, buan yr ymddangosodd gwrthwynebiad iddo yn y cartref hwn eto. A chofier mai dyma pryd, sef 1744, yr aeth ef ac eraill o Ymneilltuwyr Môn ati i gynnull eglwys yng nghartref gŵr o'r enw John Owen, Caeau-môn, Cerrigceinwen. Byddai clywed am hynny wedi bod fel tân ar groen y gwrthwynebwyr, ond gyda sefydlu'r achos yn gyfreithlon, ac urddo Jenkin Morgan yn weinidog arno yn Watford, Morgannwg, ym 1746, cafwyd

trwyddedau, ac yn sgil y rheini hawliau oedd yn cael eu gwarantu gan gyfraith gwlad.

Prin y gellid dweud fod gweithgarwch na brwdfrydedd William Prichard a'i gyd-aelodau wedi pylu'r un mymryn wedi iddynt sefydlu'r eglwys newydd. Nid rhai i orffwys ar eu rhwyfau mohonynt. Yr oedd Jenkin Morgan yn byw mewn tyddyn o'r enw Tŷ'nyraethnen lle'r oedd yn cadw ysgol, ac ar ddarn o dir yn perthyn i'r tyddyn hwnnw, fe adeiladwyd capel ym 1748. Fe'i hadnabyddir bellach fel Ebeneser, cartref eglwys Annibynnol Rhosmeirch, eglwys fywiog ac egnïol sydd wedi cyflwyno ei thystiolaeth yn ffyddlon ar hyd y degawdau, ac sy'n parhau i wneud hynny heddiw.

Nid yn unig yr oedd hwn y capel Annibynnol cyntaf yn y sir; hwn oedd y capel *Ymneilltuol* cyntaf hefyd, ffaith a gydnabyddir gyda balchder iach nid yn unig gan aelodau presennol yr eglwys, ond hefyd gan Annibynwyr eraill y sir. Yn y blynyddoedd diweddar, dychwelyd at y Fam Eglwys ar y Sul cyntaf ym mis Mai a wna Annibynwyr Môn, a hynny i gofio'r dechreuadau ac i ddathlu'r ffydd mewn ysbryd o lawenydd.

Beth ddaeth o William Prichard wedi sefydlu'r eglwys? Ym 1752, rhoddwyd iddo denantiaeth fferm Clwchdernog (neu, Cnwchdernog) gan William Bulkley, Bryn-ddu. Eglwyswr oedd Bulkley, a gŵr gwâr, un na hoffai weld Cristnogion yn cael eu herlid dim ond oherwydd bod eu dealltwriaeth o'r ysgrythur ac o natur yr eglwys yn wahanol i eiddo'r sefydliad. Diau fod cryn wgu wedi bod ar William gan amryw byd, a hynny hyd ddiwedd ei oes, ond safodd ef yn gadarn heb ddigalonni hyd ei farwolaeth ar 9 Mawrth 1773.

Mewn oes sy'n derbyn fod ychydig o law, neu oerfel, neu anghyfleustra yn ddigon o reswm i'r saint gael esgeuluso moddion gras neu gadw draw o'r capel, mae'n bwysig ein bod yn dwyn i gof benderfyniad, dewrder, ymroddiad, a chadernid ffydd pobl fel William a Jane Prichard, John Owen Caeau-môn, a Francis Evans a Jenkin Morgan. Fe ddywedwn ein bod wedi 'ein naddu o'r un graig' â hwy; os felly, mae'n bryd i ni ddysgu gwers gan ein hanes, fod i ninnau yn ein hoes ni waith i'w wneud, egwyddorion i sefyll drostynt, Efengyl i'w chyhoeddi, cenhadaeth i'w chyflawni, ac eglwys i fod yn rhan o'i gweithgarwch.

Yr hyn a wyddai'r rhai sydd wedi mynd o'n blaenau oedd nad oeddent ar eu pennau eu hunain; 'yr wyf fi gyda chwi hyd ddiwedd amser,' meddai'r Gwaredwr. Trwy bob caledi, a thrwy bopeth, bu iddynt ddal eu tir, ac os am ddilyn yn ôl eu troed, os am eu cofio a'u canmol, os am eu henwi a'u hedmygu, rhai i ni eu hefelychu hefyd ac wynebu heriau a sialensiau'r oes hon y'n galwyd ni iddi fel y bu iddynt hwythau wynebu heriau a sialensiau eu hoes hwythau.

## Troednodiadau

1 *William Prichard, Cnwchdernog* (Argraffwyd gan O. Jones, Llangefni, 1992. Cyfanswm tudalennau, 136)

2 *Hon yw fy stori* yw'r enw a roddwyd i brosiect y Gymdeithas Hanes. Y syniad yw fod unigolion yn adrodd straeon hanesyddol na fydd llawer wedi eu clywed o'r blaen. Y nod yw addysgu gwylwyr a chyflwyno'r hanesion, gobeithio, i genhedlaeth newydd.

3 1702 yw'r dyddiad a roddir gan *Y Bywgraffiadur Cymraeg* (1953) a hefyd yn *Y Bywgraffiadur* ar-lein. (O hyn ymlaen, cyfeirir at *Y Bywgraffiadur* fel *Bywg*.)

4 Am John Thomas, gw. Thomas Rees a John Thomas, *Hanes Eglwysi Annibynol [sic] Cymru*, III, t.157, lle y cyfeirir ato eto fel 'dyn da a duwiol iawn', ond lle y cyfaddefir ar yr un pryd 'i'r achos ym Mhwllheli a'r canghenau yn yr ardaloedd canlynol wanychu yn fawr' yn ystod ei gyfnod yno. Bu'n weinidog yn y dref o 1723 hyd ei farwolaeth ym 1748

5 Gw. Dyddiadur Howell Harris 68b, 3 Chwefror 1741. Mae dyddiaduron Harris, sy'n cofnodi hanes ei fywyd rhwng 1735 a 1773, yn rhan o Gasgliad Trefeca ac yn cael eu cadw ymhlith Archifau'r Methodistiaid Calfinaidd (Eglwys Bresbyteraidd Cymru) yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth:

6 Am Lewis Rees (1710–1800), gw. *Bywg.*

7 Am Jenkin Morgan (m.1762), gw. *Bywg.* Mewn oedfa yn y Watford, Morgannwg, ym 1746, urddwyd ef yn weinidog eglwys Annibynnol Rhosmeirch, Ynys Môn.

8 Am Griffith Jones (1683–1761), offeiriad eglwysig, a diwygiwr crefyddol ac addysgol, gw. *Bywg*

# Eglwys Maesyneuadd, Trefor

## Dafydd Owen Roberts

’Sgwn i sawl pentref yng Nghymru a enwyd ar ôl un o ddiaconiaid yr Annibynwyr? Mae hynny’n wir am ein pentref ni, sef Trefor, sydd wedi ei leoli rhwng môr a mynydd a rhwng trefi Caernarfon a Phwllheli. Trefor Jones oedd y gŵr dan sylw ac roedd yn ddiacon yng nghapel Bethlehem yr Annibynwyr yn yr Hendref, fel y gelwid yr ardal o ffermydd a mân dyddynnod yng ngwaelodion plwyf Llanaelhaearn ar y pryd.

Dod i’r ardal o Nebo ym mhlwyf Llanllyfni wnaeth Trefor Jones i fod yn fforman yn chwarel ithfaen yr Eifl. Yn 1856, pan oedd angen am dai i weithwyr y chwarel, gosodwyd carreg sylfaen i bentref newydd oedd yn cael ei adeiladu gan gwmni’r chwarel. A’r diwrnod hwnnw y cyhoeddwyd mai ‘Trefor’ fyddai enw’r pentref. Gŵr dibriod oedd Trefor Jones; bu farw yn 1860 yn 52 oed a’i gladdu ym mynwent Capel Helyg, Llangybi.[1]

Un o’r ffermydd yn yr Hendref oedd Maesyneuadd, ac yno y magwyd merch ifanc o’r enw Sydney Roberts. Roedd yn ferch o gryn allu, ac oherwydd hynny anfonwyd hi i ysgol yng Nghaernarfon i gael ei haddysg. Tra oedd yno, cafodd dröedigaeth dan weinidogaeth y Parchg John Griffith,[2] gweinidog eglwys Annibynnol Pendref. Digwyddodd hynny yn ystod ei gyfnod cyntaf yn y dref (1782–84). Pan ddychwelodd Sydney adref gofynnodd ganiatâd ei rhieni i wahodd ei thad yn y ffydd i bregethu ar aelwyd Maesyneuadd.[3] A dyna fan cychwyn hanes yr achos Annibynnol yn Nhrefor. Saif yr hen fwthyn lle cychwynnwyd yr achos ar y fferm o hyd.

Priododd Sydney Roberts ag Owen Jones, Boduan yn Nhachwedd 1800 a chawsant wyth o blant.[4] Un ohonynt oedd William a ddaeth yn dad i John Herbert Jones, ‘Je Aitsh’,[5] golygydd papur newydd *Y Brython*, Lerpwl. Bu dau o’r plant, John Owen Jones (Siôn Ŵan) a Sydney Lloyd Jones (Barddones Arfon) fyw yn yr hen gartref ar hyd eu hoes.[6] Derbyniwyd Sydney ac Owen Jones yn aelodau ym Mhendref, Caernarfon a cherddent yno bob cam i gymundeb a phregeth – pellter o dair milltir ar ddeg (un

ffordd).[7] Dyn anllythrennog iawn oedd Owen Jones ond roedd yn Gristion gloyw ac yn nodedig am ei ddawn gweddi.[8]

Cofrestrwyd yr achos yn 1794 tra oedd y cyfarfodydd yn dal i gael eu cynnal yn y ffermdy. Cafodd yr eglwys ei chorffori yn 1810, a chodwyd y capel cyntaf yn 1812 gyda chaniatâd stad Nanhoron, Llŷn, perchnogion y tir. Er mai Bethlehem a roed yn enw arno, fel y Capel Bach neu Gapel Maesyneuadd y cyfeirid ato gan amlaf, a'r olaf yn syml am mai yn union wrth fynedfa'r fferm yr oedd y capel wedi ei adeiladu. Y gweinidog cyntaf oedd y Parchg Owen Jones, brodor o Golwyn, a fu yma o 1820 hyd 1823. Yn ôl pob tebyg, roedd yn bregethwr huawdl a 'phe buasai ei fuchedd yn cyfateb i'w ddoniau, ni safasai dim o'i flaen.' Problem Owen Jones oedd bod 'ei flysiau at ddiodydd meddwol yn aflywodraethus.' Owen Jones druan; pe buasai'n fyw heddiw, byddai cymorth ar gael iddo.

Un o Lan-y-bri, Sir Gaerfyrddin oedd ei olynydd, y Parchg Jonathan Davies, a'i dymor ef oedd 1824 hyd 1827. Roedd yntau hefyd yn bregethwr grymus â dawn ganddo i 'adrodd hanesion y Beibl gyda llawer o ddiddordeb i wrandawyr cyffredin,' ond 'daeth cwmwl drosto'. Aeth yn ddrwg rhyngddo â chymydog o ffermwr ynglŷn â gwerthiant ŷd mewn marchnad, ac o ganlyniad i'r helynt bu'n rhaid iddo roi'r gorau i'r weinidogaeth. Er na chafodd ei adfer i'r weinidogaeth, ni fu'n hir cyn cael ei gydnabod drachefn yn bregethwr rheolaidd. Bu'n gyfeillgar â'i gyn-aelodau a bedyddiodd rai o'u plant. Yn Nhyn y Gors, Trefor yr oedd yn byw, ac yno y bu weddill ei oes hyd ei farw ar 31 Ionawr 1870. Fe'i claddwyd ym mynwent Llanaelhaearn ar 4 Chwefror. Y nos Sul ganlynol, 6 Chwefror, roedd tyrfa luosog ym Methlehem yn gwrando ar bregeth angladdol iddo gan y gweinidog, y Parchg Edward James. Ei destun oedd Hebreaid 13:7 'Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw: ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt.'

Y mae enw'r Parchg David Price, Dewi Dinorwig,[9] yn wybyddus fel awdur yr emyn 'Nac wyled teulu Duw ar ôl y saint.' Bu ef yn weinidog yma o Hydref 1829 hyd ddiwedd 1830 pan symudodd i Ben-y-bont Fawr, Maldwyn. Yn ogystal â'r eglwys yma, roedd yn gofalu am Gapel Helyg, Llangybi; Sardis, Pencaenewydd a Siloh, Chwilog.

Cwta flwyddyn, 1833–34, fu cyfnod y Parchg John Griffith yn weinidog ar eglwysi Bethlehem ac Aber-erch. Roedd ef yn fab i'r Parchg John Griffith, Pendref, Caernarfon, yr un y bu Sydney, merch Maesyneuadd, yn gwrando arno.

Brodor o Lanfachraeth, Môn oedd ei olynydd, y Parchg Edward James. Prentisiwyd ef yn deiliwr, yn Llanfachraeth i ddechrau, cyn iddo symud i Gaergybi i ddilyn ei grefft. Ymaelododd yn eglwys y Tabernacl ac yno y codwyd ef i'r weinidogaeth. Roedd gweinidog y Tabernacl, y Parchg William Griffith, a John Griffith, rhagflaenydd Edward James yn Nhrefor, yn frodyr, ac yn feibion i John Griffith, Pendref. Tua chanol 1859 symudodd James i bregethu a chadw ysgol ymhlith gweithwyr llechi chwarel Gorseddau yng Nghwm Ystradllyn ac oddi yno y derbyniodd alwad ym 1860 i ofalu am eglwysi Bethlehem a Sardis, Pencaenewydd. Aeth blwyddyn heibio cyn yr ordeiniwyd ef i'r weinidogaeth ddiwedd Gorffennaf a dechrau Awst 1861, a bu'n gofalu am yr eglwysi am ddeuddeng mlynedd, hyd 1872 pryd y symudodd i Nefyn a Morfa Nefyn. Daeth 'James Nefyn' yn adnabyddus ymhlith yr Annibynwyr, a gwnaed tysteb enwadol iddo yn 1893 yn ogystal â'i ethol yn Llywydd yr Undeb yn 1894. Testun ei anerchiad o'r gadair oedd 'Yr Annibynwyr Cymreig yn y Dywysogaeth a Threfi Seisonig'.

Gŵr ffraeth oedd Edward James. Cynhaliwyd cyfarfod ymadawol iddo ym Methlehem a chafodd anrheg o siwt a het; pob peth ond esgidiau. Wrth gydnabod y rhodd, dywedodd ei fod yn falch o fod yn sefyll ar ei wadnau'i hun wedi'r cwbl. Cofiaf i'r stori hon gael ei dweud wrthyf pan oeddwn yn blentyn ganol y chwedegau – roedd y cof amdani'n parhau, felly, bron ganrif yn ddiweddarach. Galwodd y Parchg O. L. Roberts, Lerpwl heibio i Edward James unwaith pan oedd yn wael. Roedd wedi cael gwybod gan y meddyg mai carreg yn y coluddion oedd y broblem. Er mwyn ei gysuro, dywedodd Roberts wrtho fod yna lawer iawn o bobl fu'n dioddef o'r un afiechyd wedi gwella'n llwyr dan law meddygon medrus. 'Oes, mae'n debyg' meddai James, 'pan fydd rhywun yn ddioddef o ryw anhwylder, caiff wybod am bawb arall sydd wedi dioddef yr un peth. Dyma fi, wedi byw yn y gymdogaeth yma ers dros ddeng mlynedd ar hugain ond wyddwn i ddim fod carreg gymaint

â chneuen wedi bod yn aflonyddu coluddion neb. Ond rŵan, mi allwn gymryd fy llw fod creigiau Eryri wedi'u scatro trwy goluddion pob enaid sydd yn yr ardaloedd yma!'

Er mai gŵr eiddil a bregus oedd Edward James, teithiodd lawer i bregethu a darlithio. Pan aeth i bregethu i'r de unwaith, daeth dau ddiacon i'r stesion i'w gyfarfod, ac meddai'r naill wrth y llall, wrth weld dyn mor ddiolwg, 'Beth yw'r hen iâr hyn, 'te?' Ben bore trannoeth, pregethodd Edward James mor eneiniedig nes bod yr holl gynulleidfa'n awyddus i'w glywed eilwaith, ac aeth y diacon a sibrydodd y sylw dilornus amdano ato a gofyn 'Mistir James bach, pregethwch i ni 'to, yn oedfa'r hwyr'. Ysgydwodd James ei ben. 'Na wir,' meddai, 'dim ond unwaith yn y dydd y bydd ieir y North 'cw yn dodwy!'[10]

Ceir atgofion ar glawr[11] am bregethwyr a ddeuai yn eu tro i Fethlehem yn y cyfnod cynnar (c.1860–70). Yn eu plith roedd enwau adnabyddus fel Dr Owen Evans; Gwilym Hiraethog; Herber Evans; Thomas Rees, Abertawe a John Thomas, Lerpwl. Sonnir am Ap Vychan yn pregethu ar brynhawn diwrnod gwaith ar ei ffordd i Nefyn i gadw 'cyfarfod mawr' ac yn cael ei ddanfon dros yr Eifl ar gefn hen gaseg Huw Tomos, Llwy Pric.

Wrth ddwyn i gof weithgarwch Owen a Sydney Jones a'r ffyddloniaid gynt, ar yr aelwyd ym Maesyneuadd i gychwyn, ac yna yn y capel, mae'r bardd Patrobas[12] o Nefyn yn canu fel hyn:

Hen seintiau plaen dirodres,
Nid Phariseaid bas, –
Heb fawr o addurniadau
Ond addurniadau gras;
Difalais a diddichell,
Diniwaid fel yr ŵyn;
Mae enw Maesyneuadd
Yn anwyl er eu mwyn.[13]

Erbyn tua 1870, daeth galw am helaethu'r capel gan fod poblogaeth y pentref wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i fewnlifiad o weithwyr i chwarel yr Eifl. Ceisiwyd caniatâd stad Nanhoron i ymestyn y les er mwyn

ailadeiladu neu helaethu Bethlehem. Aeth dau o'r eglwys i weld y perchennog ond fe wrthodwyd y cais. Fodd bynnag, cafwyd darn o dir fferm Llwyn yr Aethnen, dros y ffordd i Fethlehem, ychydig yn is i lawr, drwy garedigrwydd y perchennog, Mrs Margaret Jones, Tre Anna, Dwyran, Môn.[14] Ac ar ran o Cae Glas[15] y fferm honno yr adeiladwyd capel newydd unllawr a agorwyd yn 1874 a'i alw'n Maesyneuadd.

Roedd llawer iawn o Saeson wedi symud i Drefor yn y cyfnod hwn ac yn 1876 sefydlwyd achos Annibynnol Saesneg ym Methlehem a daeth yn ofalaeth gyda Maesyneuadd. Daeth yr achos Saesneg i ben ddiwedd Mehefin 1983. Mae capel Bethlehem, erbyn hyn, yn gartref i Seindorf Trefor.

Er bod achosion crefyddol eraill yn y pentref – agorwyd capel Gosen (Presbyteriaid) yn 1862; Eglwys Sant Siôr (Eglwys yng Nghymru) yn 1881 a chapel Bethania (Bedyddwyr) yn 1900, ar ddechrau'r ugeinfed ganrif daeth angen am adeilad helaethach gan yr Annibynwyr. Dymchwelyd capel 1874 ac adeiladu'r capel presennol a agorwyd yn 1908 gyda lle i tua 650 o bobl eistedd ynddo. Adeiladwyd festri yng nghefn y capel ac fe'i hagorwyd yn 1926. Erys stori gweithgarwch yr aelodau yn eu hadeiladau newydd a hanes y gweinidogion a ddilynodd James Nefyn i'w hadrodd eto. Erbyn hyn, daeth tro ar fyd; yr achos Annibynnol yn unig sy'n aros. Mae'r gynulleidfa (sy'n cynnwys rhai fu'n aelodau yn eglwysi eraill y pentref) yn addoli yn y festri ar y Sul ac mae'r adeilad yn ddigonol ac yn glyd. Ar un wedd, mae'r daith wedi cymryd tro crwn; rydym yn ôl mewn lle y gellid yn hawdd ei alw'n 'gapel bach' fel yr arferid cyfeirio'n annwyl at Fethlehem.

Er yr holl newid a fu dros y blynyddoedd fe erys rhai pobl yma o hyd i addoli'r Arglwydd mewn llawenydd ac i fynd o'i flaen â chân; i ddiolch iddo ac i fendithio'i enw. 'Oherwydd da yw'r Arglwydd; y mae ei gariad hyd byth, a'i ffyddlondeb hyd genhedlaeth a chenhedlaeth'.

# Troednodiadau

[1] Am Trefor Jones a hanes sefydlu'r pentref gw. *Trefor* (Geraint Jones a Dafydd Williams, 2006).

[2] Am John Griffith (1752–1818), gw. *Y Bywgraffiadur Cymreig* (1953) a hefyd *Y Bywgraffiadur* ar-lein trwy wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Bu'n weinidog yng Nghaernarfon ddwywaith; o 1782–84 a 1796–1818.

[3] *Adroddiad Blynyddol Eglwys Maesyneuadd, Trefor 1958*. Hanes yr Achos gan y Parchg Gwyn Jones, t.15.

[4] Erthygl gan E. A. Jones (Nellie Jones, Edern) yn *Yr Angor* (Papur Bro Cymry Lerpwl, Manceinion a Chilgwri) Ebrill 2008.

[5] Am John Herbert Jones 'Je Aitsh' (1860–1943), gw. *Y Bywgraffiadur Cymreig 1941–1950* (1970) a hefyd *Y Bywgraffiadur* ar-lein.

[6] Am atgofion Je Aitsh amdanynt gw. ei gyfrol *Moelystota* (1932) tt.7–13.

[7] *Adroddiad Blynyddol Eglwys Maesyneuadd, Trefor, 1958*. Hanes yr Achos gan y Parchg Gwyn Jones, t.15.

[8] *Ibid*.

[9] Am David Price (1804–74), gw. *Y Bywgraffiadur* (1953) a hefyd *Y Bywgraffiadur* ar-lein.

[10] *Y Pregethwr at Iws Gwlad*. Darlith Flynyddol Llŷn 1987, Parchg Harri Parri t.19.

[11] *Atgofion Hugh Williams, Penlôn*, 1923. Llawysgrif ym meddiant yr awdur.

[12] Am Patrobas, Robert Gruffydd (1832–1863) gw. *Y Bywgraffiadur* (1953) a hefyd *Y Bywgraffiadur* ar-lein.

[13] Mae saith o benillion i gyd. Fe'u cyhoeddwyd yn rhan o erthygl dan y pennawd 'Owen a Sydney Jones, Maesyneuadd, Llanaelhaiarn' yn *Y Dysgedydd Crefyddol*, Ebrill 1863 tt. 155–156.

[14] Gweithred dyddiedig 31 Gorffennaf 1873.

[15] *Ibid*.

# Wylo, Neidio a Gorfoleddu

## Nodweddion addoliad ymneilltuol yng Nghymru ar ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg

Parchg Ddr Alun Tudur

Wrth ymweld ag eglwysi sydd newydd eu plannu y mae arddull yr addoliad yn drawiadol. Y mae'n eithriadol o anffurfiol heb arlliw o 'draddodiad Cristnogol.' Tueddant i ddefnyddio caneuon cyfoes wrth ganu, er bod rhai emynau traddodiadol yn cael eu defnyddio, ond eithriad yw hynny. Nid oes canu pedwar llais nac organ. Yr arfer yw bod gitâr unigol neu fand llawn yn cyfeilio gan gynnwys, drymiau, djembe neu beat box, allweddell, gitâr rhythm, gitâr fas a lleisiau. Nid oes ychwaith unrhyw wisg ffurfiol fel siwt a thei neu siaced a thei. Testun difyrrwch i mi wrth ymweld ag eglwysi newydd yw bod yr arweinyddion yn dueddol o wisgo, crys T, trowsus cwta (shorts), fflip-fflops a het pêl fas. (Lifrau newydd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.)

Tueddwn i gymryd yn ganiataol fod y dull o addoli a etifeddwyd gennym ni erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif yr hyn a fu ers cychwyn Ymneilltuaeth. Ond nid dyna'r gwir oherwydd bu newid yn ysbryd ac arddull oedfaon o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen ac erbyn diwedd oes Fictoria roedd ffurfioli mawr wedi digwydd. Ni fyddaf yma'n cyfeirio at bregethu na chanu, bydd rhaid cael erthyglau eraill i drafod yr elfennau hynny. Felly dewch i mi yn yr erthygl hon roi blas i chi o'r math o bethau oedd yn digwydd mewn oedfaon ledled Cymru ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Roedd ymateb yn deimladwy i neges yr efengyl yn beth cwbl arferol, yn arwydd o fendith yr Ysbryd Glân, o ddifrifoldeb argyhoeddiad ac o'r ffaith fod y gwirioneddau'n cyrraedd y galon. Rhywbeth dieithr iawn oedd celu teimladau. Nodweddid yr addoliad gan fywyd, egni, cynhesrwydd, gwres a sŵn. Mae'n amlwg fod nodweddion arbennig, os nad unigryw, i'r addoliad

a'r gorfoledd Cymreig yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yng nghofiant Christmas Evans fe gofnodir amddiffyniad o'i eiddo dros yr hyn a elwid yn 'Welsh Jumping', neu 'mwynhad crefyddol', fel y gelwid ef gan Christmas Evans.[1] Ym 1829 y gwnaeth yr amddiffyniad hwn a hynny yng Nghaerodor (Bryste) ym mhresenoldeb nifer o weinidogion Saesneg. Mae'n amlwg fod llawer o'r Saeson a gweinidogion Seisnig yng Nghymru yn bur amheus o'r gorfoledd Cymreig, ac fe aeth rhai ohonynt mor bell â'i gondemnio. Yn ystod Diwygiad Beddgelert, 1817–22, synnai'r Saeson a oedd ar ymweliad â'r ardal yn fawr at ymddygiad yr addolwyr yn y capeli, a daeth rhai ohonynt i'r casgliad mai ffurf ar wallgofrwydd ydoedd. Yn ei amddiffyniad, olrheiniai Christmas Evans y dull hwn o addoli yn ôl i gyfnod Harris, Rowlands, y ddau Williams a'r Diwygiad Methodistaidd.[2] 'Trwy eu gweinidogaeth hwy', meddai, 'y dechreuodd y canu a'r dawnsio hyn mewn mwynhad crefyddol yng Nghymru, y rhai sydd heb ymadael yn llwyr o'r Dywysogaeth hyd yma.'

Ceisiai Christmas Evans oleuo ei frodyr Seisnig drwy ddangos mai dylanwad yr Ysbryd Glân a barai'r 'mwynhad crefyddol' a'i fod yn gyfrwng effeithiol i daenu'r efengyl Gristnogol. Yn wir, ymhelaethai gan ddweud mai un o'r rhesymau pam nad oedd yr efengyl wedi bod yn fwy effeithiol yn Lloegr, oedd oherwydd nad oeddent wedi profi'r nerthoedd ysbrydol hyn. Gresynai hefyd fod y nodweddion oeraidd Seisnig o addoli yn dechrau ymddangos ymhlith y Cymry, 'o dan liw bod yn drefnus.' Dywed, 'rhugnir canu pump neu chwech o benillion cyn syched â Gilboa, yn lle pennill neu ddau, fel can newydd a'i llonned o Dduw, o Grist, a gras a'r Ysbryd, nes hwylio y galon i addoli ... Trefn heb fywyd sydd yn hynod o ddiwerth.'

Pan fyddai'r amgylchiadau'n ffafriol a'r addoliad yn frwd, nodweddid ymarweddiad yr addolwyr gan orfoledd arbennig. Dewch inni edrych ar brif nodweddion yr addoliad, a'r dull yr oedd y Cristnogion yn mynegi eu mawl a'u clod i Dduw, gan ddangos eu teimladau.

## Wylo

Peth hynod gyffredin oedd i'r gynulleidfa, yn ddynion, merched ac yn blant wylo mewn cyfarfodydd. Ar nos Sul, ym 1825,[3] yr oedd W. Roberts,

Amlwch, (cefnder John Elias) yn pregethu mewn capel yn Llannerch-y-medd, Sir Fôn. Nid oedd hi ar y pryd yn gyfnod o ddiwygiad, and eto fe gafodd ei bregeth ddylanwad dwys ar y gwrandawyr. Wrth i W. Roberts rybuddio'r annuwiol o'u tynged roedd y gynulleidfa fel pe bai wedi ymddrysu, 'yr oedd sŵn galar, a griddfan dystaw, yn rhedeg drwy yr holl addoldy, i fyny ac i lawr – aeth pawb yn foddfa o ddagrau ar unwaith.'

Yn un o'i ysgrifau ar Ddiwygiad 1859 mae Robert Ellis, Ysgoldy, Arfon, yn cyfeirio at un o'r cyfarfodydd arbennig y bu ynddynt yn ystod yr adfywiad. Ar derfyn cyfarfod gweddi galwyd seiat, a gwelwyd fod rhai wedi aros ar ôl o'r newydd. Yna yn ddisymwth agorodd drws y capel a daeth oddeutu wyth o fechgyn ifanc i mewn yn y dychryn mwyaf gan eistedd ar fainc ac wylo'n hidl. 'Wrth eu gweled hwy aeth pawb i wylo. A chyfarfod i wylo, gan mwyaf, fu hwn: tadau yn wylo, a mamau yn wylo, brodyr a chwiorydd yn wylo; wylo distaw, wylo o'r galon, ac addoli wrth wylo. Nid oedd gan neb flas dros ennyd yn y cyfarfod hwn ar ddim ond wylo! Ac O! gyda'r fath foddhad yr wylai rhai mamau! yn lapio y cadach llogell (hances) ag un llaw ar y wyneb, a churo y glin â'r llaw arall, a wylo o fodd calon. A pha ryfedd? hawdd y gallai y mamau hyn ddywedyd. "Am y bachgen hwn y gweddïais ... " '[4]

Rhan o'r addoliad oedd yr wylo, yn fynegiant o edifeirwch neu o ddiolch i Dduw am iachawdwriaeth.

## Llewygu

Digwyddiad lled gyson mewn cyfarfodydd cynhyrfus oedd bod rhai'n cael eu clwyfo gan y gwirioneddau a gyflwynid mewn pregeth, a bod hynny'n effeithio'n gorfforol arnynt. Ceir nifer o enghreifftiau o bobl yn mynd yn gorfforol sâl ar ôl gwrando pregeth wrth iddynt fynd drwy fwlch yr argyhoeddiad, ac yna yn gwella wedi iddynt edifarhau am eu pechodau a chredu yn yr Arglwydd Iesu. Cofiai Edward Davies, Trawsfynydd, am oedfa arbennig fu yn Hen Gapel, Llanuwchllyn, tua 1808 pan oedd Cadwaladr Jones, Dolgellau, yn pregethu yno. Roedd yn ddiwrnod oer iawn, a Cadwaladr Jones yn traddodi ei bregeth yn bwyllog a digynnwrf. Ond rhywle tua chanol y bregeth dyma wraig yn syrthio i'r llawr mewn llewyg

ac yn ymddangos fel pe bai'n cael trafferth i anadlu. Credai Edward Davies ei bod ar farw. Ond yna ymhen ychydig dyma eraill yn syrthio yn yr un modd. Wedi iddynt ddod atynt eu hunain dechreusant orfoleddu gymaint fel na allai Cadwaladr Jones barhau gyda'i bregeth. Yn y cyfnod hwnnw yn ardal Llanuwchllyn roedd yn rhaid i bob pregethwr bregethu'n araf a phwyllog gan ei bod mor rhwydd peri gorfoledd ymhlith y bobl.'[5]

Bu digwyddiad cyffelyb yn eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Nhanygrisiau yn ystod Diwygiad 1859. Mewn oedfa yn y capel roedd Robert Williams yn sefyll yn gwrando ar y pregethwr ac roedd hi'n amlwg i'r rhai oedd yn ei ymyl fod y gwirioneddau yn gafael ynddo yn dynn. Yna ar ganol y bregeth 'fe'i clwyfwyd' ac fe syrthiodd i lawr i waelod ei sedd fel petai'n farw gan beri braw i'r gynulleidfa. Aethpwyd ag ef adref y noson honno ac wedi iddo ddod ato ei hun, rhoddodd ei hun i Dduw gan ddod yn aelod eglwysig.[6]

Bu llewygu'n rhan o addoliad!

## Neidio

Nodwedd arall yn y gorfoledd, yn enwedig mewn diwygiadau, oedd neidio wrth addoli Duw. Yn ystod y blynyddoedd 1828–29, bu diwygiad ym Morgannwg, a gwelwyd ei ddylanwad yn drwm ar Ebeneser, eglwys yr Annibynwyr, Aberdâr. Yn yr hen gapel byddai'r brodyr, Dafydd Shencyn, Shon Price a William Shencyn ynghyd ag eraill yn neidio wrth foli Duw. Byddai'r merched a'r gwragedd yn tynnu eu siolau a'u boneti er mwyn bod yn fwy rhydd i neidio. Yn y capel roedd bwrdd bychan, a than ddylanwad y gorfoledd byddai'r brodyr a enwyd uchod yn neidio i ben hwnnw gan weiddi 'Hosanna a Bendigedig.' Ofnai'r rhai oedd yn llai brwd eu teimladau y byddai'r bwrdd yn rhoi oddi tanynt, ond dal yn gadarn dan y neidio wnaeth y bwrdd. Parhau yr oedd y neidio yn Ebeneser yn Niwygiad 1859, a'r hen bobl yn neidio i ben y seddau nes colli eu gwynt yn lân. Mae hanes am Shencyn Griffiths, a oedd yn ŵr oedrannus ym 1859, yn neidio i ben y sedd fawr ac o'r fan honno'n annog y gynulleidfa yn yr oriel i neidio i fyny gan eu bod hwy yn nes i'r nefoedd na'r rhai oedd ar y llawr.[7]

Mewn cyfarfod gweddi yn Llanfechell, Môn, torrodd yn orfoledd, a neidiodd un brawd ifanc yn ei lawenydd dros ddwy o'r seti i'r llawr lle'r oedd rhai yn gorfoleddu.[8] Dywed Robert Edwards mai'r arfer yn yr hen gapel yn Llanfechell oedd i'r gorfoleddwyr hel at ei gilydd ar ganol y llawr. Digon hawdd oedd iddynt wneud hyn gan mai meinciau symudol oedd yno. Roedd Catrin Rondol, Lledrod, yn enwog am ei gorfoleddu, a byddai hithau a'r hen wragedd yn y capel yn 'llamu fel ewigod.'[9]

(Hoffwn nodi yma, yn nifer o'r capeli cynnar nid oedd seti wedi eu gosod ynddynt, dim ond meinciau symudol. Mewn ambell i gapel roedd y gynulleidfa yn sefyll ar y llawr pridd trwy gydol y gwasanaeth. Haws neidio!)

Roedd neidio'n rhan o addoliad.

## Porthi a bloeddio

(Porthi oedd yr arfer cyffredin mewn oedfa lle'r oedd pobl yn y gynulleidfa yn gweiddi yn ddigymell. Neu ddyfynnu rhai adnodau ar lafar. Gwneid hyn yn gyson yn ystod pregethau.)

Gan fod y cyfarfodydd yn rhydd a chartrefol, roedd ochneidio, porthi a bloeddio yn bethau cwbl arferol. Cadarnheid yr hyn a ddywedid gan y pregethwr gydag 'Amen', 'Bendigedig', 'Diolch iddo' neu ymadroddion cyffelyb. Peth dieithr at ei gilydd fyddai oedfa gyfan gwbl dawel lle na fyddai na siw na miw o gyfeiriad y gynulleidfa. Yng nghofiant John Evans, Eglwysbach, ceir disgrifiad rhagorol o ymddygiad y blaenoriaid mewn oedfa gyffredin ar y Sul.

> Ychydig o sŵn a gynhyrchent yn gyffredin, serch fod y gwrandawiad bob amser yn fywiog. Yr oedd ganddynt ddull o wylio wynebau ei gilydd dan y bregeth, ac, os byddai achos, o deligraphio effaith y dylanwad o'r naill i'r llall; ond gwnaent hyn oll yn hynod ddirgelaidd, ac yn hollol foneddigaidd. Gollyngid allan ambell 'Amen!' a 'Diolch!' mewn llais cryf a pheraidd, gan ŵr Bryn-y-Frân, pan lenwid ei lygaid glas mawr â deigryn; ymollyngai gwr y Berllan Bach, pan wrth ei fodd, i ryw

chwerthiniad dirwasgol a nefolaidd, a dyhidlai gawod o ddagrau i'w gadach (hances) goch, gan ymgrymu â'i ben yn isel wrth ochr y pwlpud ... Ymsirioli fel adlewyrchiad haul ar fryn y byddai gwr Tan-yr-Ywen dan y bregeth, gan ysgafnhau ei fron addolgar ag ambell ochenaid hyglyw mewn llais tenor mwyn a chlochaidd. Pan welid arwyddion teimlad ar y pedwar hyn, toddai C. Foulkes yn ei set, clywid 'Amen!' graslyd, and hynod arwyddocaol, ar draws y llawr, o sêt deuluol Tan-yr-Allt, o bendraw y capel, ac ymollyngai brodyr llai amlwg yma ac acw, yn enwedig brawdoliaeth y set fawr, i borthi y gwasanaeth ac i gymysgu eu dagrau[10]

Roedd ochneidio yn rhan o addoliad.

## Gorfoledd

Hyd yn hyn yn yr erthygl hon, rydym wedi cyfeirio at nifer o elfennau unigol, wylo, llewygu, neidio, bloeddio a phorthi a oedd yn nodweddu'r addoliad. Ond y gwir yw bod y rhain yn aml yn digwydd ar yr un pryd mewn oedfa. Creai hyn oedfaon hynod swnllyd a chynhyrfus a allai ymddangos yn anhrefn llwyr. Yng nghofiannau a chylchgronau'r cyfnod defnyddid y gair 'gorfoledd' i gyfleu'r holl elfennau hyn, ac mae toreth o enghreifftiau o oedfaon gorfoleddus. Yma cyfeiriaf at ddim ond un enghraifft.

Cynhaliwyd Cymdeithasfa'r Methodistiaid Calfinaidd ym Mangor ym 1838, ac oherwydd y tywydd gwlyb bu'n rhaid cynnal yr oedfaon yng nghapeli'r ddinas. Ar un o nosweithiau'r Gymdeithasfa roedd cyfarfod pregethu yn y Tabernacl a'r capel o dan ei sang. Y pregethwyr y noson honno oedd John Phillips a John Hughes, Pontrobert, ac fel hyn y disgrifiai Henry Lewis yr oedfa, (arfer ar y pryd oedd cael dau bregethwr mewn un oedfa).

Pregethai (John Phillips) oddiar y geiriau, 'Cymer addysg o Jerusalem' &c. Yr oedd ei weinidogaeth yn dra effeithiol, a'r gorfoledd mor gyffredinol ac mor uchel, fel, cyn y diwedd, nas gellid clywed yr un gair o'r bregeth yn yr oriel. Yr Hybarch John Hughes, Pontrobert, oedd i

> bregethu olaf. Dywedir ddarfod iddo roddi pennill allan i'w ganu cyn cymeryd ei destyn, ac i'r pennill gael ei ganu gan y rhai oedd yn y sêt fawr a'i chyffiniau, ond na wyddai y rhai oedd yn y gallery, gan fod y gorfoledd yn boddi y cwbl. Gwelid yr hen batriarch yn dodi ei law agored wrth ei wefusau er cynnorthwy i'w lais, ond ni chyrhaeddai yr un gair a ddywedai glustiau neb oedd yn yr oriel na rhannau o'r llawr. Rhoes y pregethwr i fyny'r cais, a therfynodd y gwasanaeth, ond parhaodd y gorfoledd uchel yn hir ar ôl hynny.[11]

Nodwedd arbennig i'r gorfoledd oedd nad oedd gan unrhyw un reolaeth arno; ni ellid ffrwyno cynulleidfa orfoleddus. Erbyn hyn fe welwn yn glir pa fodd yr oedd y gynulleidfa yn ymddwyn ac yn cymryd rhan weithredol yn yr addoliad. Nid oedd unrhyw ffurfioldeb yn perthyn i'r cyfarfodydd; i'r gwrthwyneb, roedd rhyddid i'r addolwyr fynegi eu teimladau'n ddigymell. Canlyniad hyn oedd bod cyfle i bob un gymryd rhan. Nid oedd y siarad yn gyfyngedig i un dyn, ac nid un llais o'r pulpud yn unig a glywid, gallai unrhyw un ddyfynnu adnod, gweddïo neu ledio emyn. Dyma yn wir oedd offeiriadaeth yr holl saint.

Roedd cynnydd Pentecostaliaeth ymhlith pobl dlodion a gorthrymedig Cymru yn awgrymu fod gan y grefydd deimladol apêl neilltuol at y cyfryw rai. Wrth gwrs rhan o waith yr efengyl Gristnogol yw galluogi credinwyr i ddelio ag anawsterau bywyd, ac yn sicr yr oedd pobl yn troi'n rhannol at Gristnogaeth am gysur oherwydd caledi eu bywyd pob dydd.

Ond erys y ffaith fod gwerin Cymru'n gweld atyniad yn y grefydd deimladol hon. Yr oedd cynnwrf emosiynol yn denu pobl anghrediniol i ymuno, ac yn foddion i'w hargyhoeddi. Yr oedd berw teimladol yn rhoi cyhoeddusrwydd dramatig i grefydd, ac roedd rhywbeth heintus yn y gorfoledd a'r emosiwn a oedd yn denu eraill.

## Teimladau'n lleihau

Er yr holl frwdfrydedd yn yr addoliad, yn arbennig mewn cyfnodau o ddiwygiad, teimlai rhai bod amharodrwydd i ddangos teimladau'n dechrau codi ei ben a bod llai o ymateb i bregethu. Wedi iddo gyfeirio at gyfarfod gorfoleddus fu yn Llannerch-y-medd, ym 1825, ac ymateb y gynulleidfa o

dan bregeth W. Roberts, Amlwch, ychwanega H. Jones, Bangor, y sylwadau hyn:

> Paham na welid teimladau cyffelyb yn awr, dan y gwrandawiad o'r un gwirioneddau? Ni ddywedwyd dim yn eglurach, nac yn fwy effeithiol, y pryd hwnnw, o ran y traddodiad ym mhob modd, nag a leferir yn fynych yn y dyddiau hyn. Efallai nad oes yr un cyfrif athronyddol a ellir ei roddi, mewn unrhyw sicrwydd, am y gwrandawyr na'r pregethwr. Y mae ymarferiad yn newid ansawdd teimlad, er mai yr un yw'r gwirionedd.[12]

Y gwir yw bod llawer o ddylanwadau'n rhoi pwysau ar yr addolwyr i newid eu hymddygiad erbyn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gallwn nodi'r pwyntiau a ganlyn fel rhai o' r ffactorau hynny:

1. Parch tuag at gapeli fel adeiladau 'sanctaidd' yn cynyddu, a phwyslais ar wedduster yn nhŷ Dduw.
2. Yr awydd cynyddol i gael trefn ar bopeth gan gynnwys gwasanaethau; canlyniad gorfoledd oedd anhrefn.
3. Roedd y niferoedd yn y cyfarfodydd yn cynyddu a phobl yn analluog i ymlacio i'r un graddau yng nghwmni ei gilydd, gan nad oedd yr un agosatrwydd rhwng aelodau mewn cynulleidfaoedd mawr ag a oedd mewn cynulleidfaoedd bychain.
4. Yn ystod ail hanner y ganrif roedd llawer mwy o arweinwyr cymdeithasol yn aelodau o'r cyrff, e.e. cyfreithwyr, ynadon, perchnogion busnesau. Nid gweddus oedd i bobl o statws golli arnynt eu hunain wrth addoli.
5. Roedd dyfodiad addysg yn dysgu pobl i ddisgyblu eu hunain lawer mwy, ac i fynegi eu hunain mewn ffyrdd llawer llai emosiynol.
6. Yn sgil y diwygiad cerddorol ganol y ganrif a dyfodiad y Sol-ffa daeth canu cynulleidfaol i fod yn llawer mwy trefnus a disgybledig. Cyn hynny roedd canu yn yr addoliad yn bur symol.

Oherwydd y rhesymau hyn, ac eraill, roedd teimladrwydd yn lleihau a ffurfioldeb a threfnusrwydd yn prysur ennill y dydd. Gwelwn felly newid ym mhatrwm addoliad erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Erbyn hynny roedd aelodau'r cyrff ymneilltuol yn llawer mwy tawedog nac y buont yn gynt yn y ganrif, ac yn fwy amharod i fynegi eu teimladau. A yw hyn yn arwydd eu bod yn prysur droi'n enwadau? A yw enwadau yn profi diwygiadau cyffredinol? Cyhyd ac yr oedd gorfoledd diwygiadol o dan arweiniad yr Ysbryd yn rhan o fywyd y cyrff ymneilltuol Cymreig fe gedwid nodweddion sectyddol. Oherwydd roedd y diwygiadau'n atal ffurfioldeb caeth a threfnusrwydd defodol. Ai peth da yntau peth drwg oedd ein bod wedi colli'r elfennau teimladol o'n haddoliad? Efallai mai Diwygiad 1904–05 oedd yr ebychiad olaf o'r gorfoledd Cymreig, am y tro.

[Gwn y gellir rhoi rhesymau cymdeithasegol a seicolegol am rai o'r nodweddion a geir uchod ac ar gyfer trafodaeth ddyfnach rhaid mynd i'r bennod 'Y Cartref a'r Capel' yn fy nhraethawd ymchwil doethuriaeth sef 'O'r Sect i'r Enwad: Datblygiad Enwadau Ymneilltuol Cymru, 1840–70.' Tudalennau 215–235.]

# Troednodiadau

[1] W. Morgan, *Cofiant neu Hanes Bywyd y Diweddar Christmas Evans,* (Caerdydd, 1839), t. 59. Am 'Welsh Jumpers', gw. David Williams, cofiant *J. R. Jones Ramoth*, (Caerfyrddin, 1913), tt. 333–37. Mae amddiffyniad Christmas Evans o deimladrwydd yn adleisio amddiffyniad Williams Pantycelyn yn *Ateb Philo -Evanglelicus*, (1763). Garfield H. Hughes (gol.), *Gweithiau William Williams Pantycelyn*, (Caerdydd, 1967), tt. 13–32.

[2] Am y Diwygiad Methodistaidd gw. John Hughes, *Methodistiaeth Cymru*. (Wrecsam, 1851), cyfrol i. D. D. Williams, *Llawlyfr Hanes Cyfundeb Y Methodistiaid Calfinaidd*, (Caernarfon, dim dyddiad), tt. 40–91.

[3] H. Jones, *Cofiant y Parch. W. Roberts,* Amlwch, (Llannerch-y-medd, 1869), t. 61.

[4] John Owen Jones, *Cofiant a Gweithiau Robert Ellis, Ysgoldy, Arfon* (Caernarfon, 1883), t. 261. Am wylo gw. Edward Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau Crefyddol yn Nghymru*, (Corwen, 1898), t. 100. Henry Hughes, *Diwygiadau Crefyddol Cymru*, (Caernarfon, 1906), t. 252, t. 444.

[5] R. Thomas, *Cofiant Cadwaladr Jones, Dolgellau*, (Lerpwl, 1870), t. 208.

[6] David O. Hughes, *Canrif o Hanes, Hanes yr Achos Methodistaidd yn Nhanygrisiau, 1809–1909*, (Blaenau Ffestiniog, 1909), t. 65. Am 'lewygu' gw. *ibid*. t. 63, Owen Thomas & J. Machreth Rees, *Cofiant y Parchedig John Thomas D. D., Liverpool,* (Llundain, 1898), t. 167. J. J. Morgan, *Hanes Dafydd Morgan a Diwygiad '59*, (Cyhoeddedig gan yr Awdur, 1906), t. 96, t. 100, tt. 377–8.

[7] Jacob Treharne, *Hanes Eglwys Annibynol Ebenezer, Aberdar*, (Aberdâr, 1898), t. 18, t. 35.

[8] Robert Edwards, *Atgofion neu Hanes Crefydd yn Llanfechell a'r Cylch*, (Dinbych, 1910), t. 37.

[9] H. Jones, *Cofiant y Parch. W. Roberts, Amlwch*, (Llannerch-y-medd, 1869), t. 22

[10] John Price Roberts & Thomas Hughes, *Cofiant y Parch John Evans. Eglwysbach*, (Bangor, 1903), tt. 66–67. Gw. Owen Thomas & J. Machreth Rees, *Cofiant Y Parchedig John Thomas, D. D. Liverpool*, (Llundain, 1898), t. 167.

[11] Henry Lewis, *Canmlwyddiant y Tabernacl*, (Conwy, 1907), t. 85.

[12] H. Jones, *Cofiant y Parch. W. Roberts, Amlwch*, (Llannerch-y-medd, 1869), t. 59.

# Hugh Jones, Maesglasau 1749–1825

Parchg Iwan Llewelyn

Rydw i bob amser yn dotio at yr olygfa wrth fynd dros Fwlch yr Oerddrws o Ddolgellau i Ddinas Mawddwy ac yn cael fy nghyfareddu gan yr amrywiaeth lliwiau sydd ar odreon y mynyddoedd o'm blaen. Yng nghesail y mynyddoedd hyn y mae cwm Maesglasau, ac i fynd iddo mae'n rhaid teithio at gyrion pentref Dinas Mawddwy, a chyn troi i lawr i'r chwith am y pentref, troi i'r dde i fynd am yn ôl am y cwm ac heibio ffermydd Y Ffridd a Thy'n y Braich.

Yn y ddeunawfed ganrif ychydig o ffermydd a bythynnod oedd yn y cwm, ond yn y fan yma, yng nghwm Maesglasau yn Nhy'n y Maes y bu Hugh Jones fyw am flynyddoedd cyntaf ei oes, er iddo gael ei eni yng Nghwm Mynach, Aberangell ym mhlwyf Mallwyd. Yn ôl Angharad Price, mae 'na sawl amrywiad ar yr enw 'Maesglasau' – Maesglasivre, Maesglasre, Maesglasfre, ac yna Maesglasau. Yr enw a gytunwyd arno oedd Maesglasau, sy'n tarddu o'r gair clas, gan awgrymu bod yna clas yn yr ystyr o fynachlog wedi bod ym mhen draw'r cwm rhywbryd.

Roedd Hugh yn bumed plentyn o naw i William ac Elizabeth Jones. Does dim dyddiad geni wedi'i gofnodi, ond mae ddyddiad i'w fedydd, sef 24 Tachwedd, 1749 yn eglwys Mallwyd, yr eglwys sy'n cael ei hadnabod fel eglwys Sant Tydecho. Nid teulu tlawd mo'r teulu ac mi gafodd pob un o'r plant addysg dda gan dderbyn eu haddysg gan gurad Mallwyd ar y pryd. Yn nyddiau ei blentyndod darllenodd Hugh yn eang ac roedd yn medru Saesneg, Lladin a Groeg. Er ei fod yn llyfrbryf, roedd yn hoff o gymdeithasu â phlant eraill ac yn gymysgwr da. Ond nid yn unig yr oedd yn ddarllenwr da, roedd hefyd yn gerddor a ddaeth o dan ddylanwad John Williams, gŵr o Ddolgellau, a chyfansoddwr y tonau 'Dyfroedd Siloah' a 'Sabbath.' Yn wir, yng nghwrs y blynyddoedd wedyn, cyfansoddodd Hugh Jones nifer o weithiau cerddorol canadwy.

Yn y cyfnod hwn hefyd bu wrthi'n cyfansoddi anterliwtiau, ond pan oedd

yn ugain oed yn 1769 a'r Diwygiad Methodistaidd yn ei rym, profodd dröedigaeth grefyddol – ef a'i deulu – a llosgodd yr anterliwtiau i gyd gan gredu'n gryf mai gwaith y diafol oedd y rhain. Erbyn hyn roedd 'Grwpiau Methodistaidd' wedi'u ffurfio yn Llanbrynmair a Darowen ac mewn llefydd eraill yn nes at Feirionnydd, o dan ddylanwad neb llai na Howell Harris.

Tua 1772, symudodd i Lundain, a chafodd waith yno fel athro, a dyma'r cyfnod pryd yr ysgrifennodd ei gyfrol gyntaf *Cydymaith yr Hwsmon* – cyfrol o gerddi Cristnogol. Bu gwerthu eang ar y llyfr hwn er mai braidd yn syml ac arwynebol, yn ôl ambell un, ydi rhai o gerddi'r gyfrol.

Pan ddychwelodd Hugh yn ôl i Fawddwy tua 1776, daeth yn ôl at y gwaith o fugeilio'r praidd ar lethrau Maesglasau. Roedd yn parhau i fod yn drwm o dan ddylanwad y Diwygiad Methodistaidd a diwinyddiaeth John Calvin ac roedd yn un o'r rhai a sefydlodd yr achos Methodistaidd ym Mallwyd a'i wneud yn ysgrifennydd cyntaf yno.

Mae'n amlwg bod William ac Elizabeth Jones wedi gweld y posibiliadau ar gyfer eu pumed mab, a gwerthwyd yr etifeddiaeth yng nghwm Maesglasau i Hugh, er mwyn iddo fedru cynnal ei hun. Yr hyn a wnaeth ef, fodd bynnag, oedd gwerthu'r fferm a rhentu ystafell ym Mallwyd er mwyn cael lle i ysgrifennu, a rhwng 1776 a 1798 cyhoeddodd 21 o gyfrolau crefyddol a hanesyddol, a hyd yn oed llyfr yn y Gymraeg ar rifyddeg. Cystal dweud bod llawer o'r llyfrau a gyhoeddodd yn gyfieithiadau o'r Saesneg i'r Gymraeg, ac wrth gwrs yr oedd angen hynny yn y cyfnod hwnnw.

*Hymnau Newyddion* yw ei gyfrol Gymraeg arhosol, ac yn hon fe geir saith o emynau. Dim ond un sydd wedi goroesi sef 'O tyn y gorchudd.' A dweud y gwir mae rhai emynau yn y gyfrol yn ddigon gwachul. Dyma enghraifft o bennill o un o'r emynau:

O na bai fy mhen yn ddyfroedd
A'm llygaid yn ffynhonnau llawn
Fel yr wylwn dros feidrolion
O'r boreuddydd hyd brynhawn,
O na byddai mewn anialwch
I'm lety y fforddolion draw,

Modd na flinid f'enaid gwirion
Gan annuwolion ar un llaw.

Heb amheuaeth, mae'r emyn 'O tyn y gorchudd' (*Caneuon Ffydd* rhif 525) filltiroedd ar y blaen ar hwn ac eraill, ac yn ôl Syr O. M. Edwards, yr emyn gorau a ysgrifennwyd yn y Gymraeg gyda'i holl ddelweddau ysgrythurol cadarn. Mae'r llinell gyntaf sy'n gofyn i'r Arglwydd dynnu gorchudd pechod yn seiliedig ar Eseia 25:6–7. 'Ar y mynydd hwn bydd Arglwydd y Lluoedd yn paratoi gwledd o basgedigion i'r bobl i gyd, gwledd o win wedi aeddfedu, o basgedigion breision a hen win wedi ei hidlo'n lân. Ac ar y mynydd hwn fe ddifa'r gorchudd a daenwyd dros yr holl bobloedd ... ' Y gorchudd ydi pechod a'r ateb i'r difa ydi yng ngwaed y groes.

Doedd cyhoeddi llyfrau yn y diwedd ddim yn dod ag elw ariannol iddo, ac aeth i ddyledion go sylweddol. Cafodd ei geryddu'n o lym o'r herwydd gan ei gyd-aelodau ym Mallwyd, a suddodd i ddigalondid gan dynnu ei aelodaeth o'r capel. Yn dilyn hyn roedd yn well ganddo fod ar ei ben ei hun ac aeth yn dipyn o feudwy ond daliodd ati i ysgrifennu ar bynciau'r dydd.

Dychwelodd i Lundain yn 1802 gan obeithio cael cymorth ariannol gan rai o'i ffrindiau yno. Cafodd ychydig o gymorth, ond nid digon i'w gynnal ei hun, er iddo barhau i ysgrifennu. Dim ond ychydig fisoedd y bu yn Llundain y tro hwn a daeth yn ôl adref yn haf 1802 a chadw ysgolion yn Ninas Mawddwy a lleoedd eraill. Roedd ei sefyllfa ariannol yn parhau'n fregus ac erbyn 1817 roedd mewn cyflwr truenus o ran ei bryd a'i wedd a bu ar ofyn ficer Darowen am gymorth ariannol. Yna yn ystod 1817 gofynnwyd iddo gan Richard Jones, cyhoeddwr llyfrau o Ddolgellau i gyfieithu 'Flavius Josephus' – traethawd anferth ar hanes yr Iddewon. Gwnaeth y gwaith yn rhagorol, ond ni fu Richard Jones yn garedig tuag ato. Gwnaeth Richard Jones elw o £2,000 o'r cyfieithiad, a oedd yn swm enfawr ar y pryd, ond chafodd Hugh Jones y nesaf peth i ddim o'r elw hwn, er mai ef oedd wedi gwneud y gwaith mawr.

Gwellodd pethau am gyfnod byr pan gafodd waith cyfieithu gan gymdeithas lenyddol yn Llundain, ond gwelliant dros dro oedd hynny, a dod yn ôl i ardal Mawddwy fu ei hanes. Eto, llewyrchodd gwawr pan gafodd

gynnig gwaith yn Ninbych i gyfieithu gwaith Isaac Watts *The World to Come* i Thomas Gee, y tad (diolch i Huw Powell Davies am yr wybodaeth yma). Ar ei ffordd yn ôl i Fawddwy cwympodd yn yr oerni gan ei wneud yn bur wael ei iechyd. Cafodd loches gan wneuthurwr esgidiau yn Henllan, ond bu farw bum wythnos yn ddiweddarach. Bu farw ar 16 Ebrill, 1825 a'i gladdu mewn bedd tlotyn yn Henllan.

Athrylith yn ei gyfnod, ond stori drist yw stori'i fywyd. Bydd yn cael ei gofio am yr emyn gorchestol 'O tyn y gorchudd yn y mynydd'; emyn sydd yn fwy diweddar wedi'i hanfarwoli yn nofel Angharad Price, *O tyn y gorchudd* a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi 2002.

**Cydnabyddiaeth:**

Dr Angharad Price, Bangor.

Wyn ac Olwen Jones, Ty'n y Braich, Dinas Mawddwy.